Auschwitz

Auschwitz oedd y mwyaf o wersylloedd difa y Natsïaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd; yma y lladdwyd canran uchel o'r rhai a laddwyd yn yr Holocost. Roedd rhan ohono hefyd yn wersyll crynhoi. Cymer ei enw o'r dref gyfagos, Oświęcim mewn Pwyleg, *Auschwitz* mewn Almaeneg. Mae'r dref tua 50 km i'r dwyrain o Kraków a 286 km o Warsaw.

Y porth i mewn i Auschwitz I. Mae'r geiriau uwchben y giat yn dweud *Arbeit macht frei* ("Mae gwaith yn rhyddhau")

Amlosgfa yn Auschwitz I

Roedd tri prif wersyll: Auschwitz I, y ganolfan weinyddol; Auschwitz II (Birkenau), y *Vernichtungslager* neu wersyll difa; ac Auschwitz III (Monowitz), gwersyll gwaith. Sefydlwyd Auschwitz I ar 20 Mai, 1940, a dechreuwyd adeiladu Auschwitz II (Birkenau) yn Hydref 1941. Mae rhywfaint o ansicrwydd faint yn union o bobl a laddwyd yn Auschwitz. Tystiodd pennaeth y gwersyll, Rudolf Höss i hyd at 2.5 miliwn farw, ond y farn gyffredinol yn awr yw i rhwng 1.1 miliwn a 1.6 miliwn gael eu lladd. Lladdwyd y mwyafrif yn y siamberi nwy yn Birkenau, gan ddefnyddio nwy Zyklon-B.

Mae Auschwitz I ac Auschwitz II wedi eu dynodi fel Safle Treftadaeth y Byd.

*Eginyn erthygl sydd uchod am **hanes**. Gallwch helpu Wicipedia drwy ychwanegu ato (https://cy.wikipedia.org/w/index.php?title=Auschwitz&action=edit).*

*Eginyn erthygl sydd uchod am **Wlad Pwyl**. Gallwch helpu Wicipedia drwy ychwanegu ato (https://cy.wikipedia.org/w/index.php?title=Auschwitz&action=edit).*

Wedi dod o "https://cy.wikipedia.org/w/index.php?title=Auschwitz&oldid=2271624"

Newidiwyd y dudalen hon ddiwethaf ar 12 Mawrth 2017, am 14:12.

Mae testun y dudalen ar gael dan drwydded Creative Commons Attribution-ShareAlike; gall fod telerau ychwanegol perthnasol. Gweler Telerau Defnyddio'r Drwydded am fanylion pellach.